



Cofnodion Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd brynhawn Iau y 18^{fed} o Dachwedd 2021 2:00 y.p.

Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd
Gareth Wyn Jones	Ysgrifennydd

Eirian Davies, Robert Evans, John Griffith, Dafydd Lewis, Haf Meredydd, Carys Parry, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams, Phillip Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb ac yn enwedig croesawodd Haf Meredydd i'w chyfarfod cyntaf.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown ac Elizabeth Roberts. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu â Tudur Pritchard (**pwynt gweithredu**).

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR HYDREF 15^{fed} 2021

Cynigiodd Iwan Roberts ac eiliodd Philip Williams dderbyn cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

4. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Awst 19^{eg} 2021

Cynigiodd Dafydd Lewis ac eiliodd Hywel Madog Jones dderbyn cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- (i) Cofnod 4ii): Defnydd o rodd Anne Gwynne i goffrau'r Gymdeithas Esboniodd y Cadeirydd fod camddealltwriaeth ynglŷn â dymuniadau Anne a byddai'n well ganddi weld y Gymdeithas yn defnyddio'i rhodd ar gyfer adnoddau i'n stondin yn Eisteddfod Tregaron. Tynnwyd sylw nad oedd angen £500 ar gyfer prosiect "Dyddiaduron Owen Edwards" yn y dyfodol agos (gweler eitem 11i). Awgrymwyd defnyddio rhodd Anne ar gyfer rhywbeth cysylltiedig ag ardal Tregaron yn hytrach nag ar gyfer paneli neu ddodrefn y byddem wedi gorfod eu prynu beth bynnag. Cynigiodd ffurfio is-bwyllgor

i drafod trefniadau a gofyn i Anne fod yn aelod. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu ag Anne eto (**pwynt gweithredu**).

- (ii) Cofnod 6: Penodi Trefnydd Gweithgareddau i'r Gogledd Orllewin Dywedodd yr Is-gadeirydd nad oedd newid i'w adrodd. Mynegwyd pryder bod gwendid strategol oherwydd bod trefnu teithiau'n dod yn anos ac yn ormod o faich ar y tri Threfnydd. Dywedodd y Cadeirydd y gallai aelodau rhannu'r swydd. Cadarnhaodd Eirian Davies ac Iwan Roberts eu bod yn cael anawsterau wrth drefnu teithiau am weddill y gaeaf. Cytunwyd i barhau i gyhoeddi teithiau fesul mis yn hytrach na chynnwys rhaglen chwe mis yn y Cylchlythyr.
- (iii) Cofnod 10 Ymholi ar gyfer lleoliad cyfarfodydd yn y dyfodol Diolchodd yr Ysgrifennydd i Gwyn Roberts am anfon y manylion cysylltu angenrheidiol. Dywedodd nad oedd yr ystafelloedd cyfarfod yn yr adeilad "Medrus" ar gael ar ddyddiadau cyfarfodydd mis Mai na mis Awst 2022 ond ei bod yn debyg y byddai'n bosibl i logi ystafell amgen. Byddai cost o £50 am ystafell gyda'r cyfleusterau i ganiatáu i ychydig o aelodau dewis cysylltu'n rhithiol. Cytunwyd ei bod yn ddymunol osgoi teithio diangen am resymau amgylcheddol ond teimlai'r mwyafrif y gellid cyfiawnhau cwrdd wyneb yn wyneb o leiaf unwaith yn dilyn cyfres hir o gyfarfodydd rhithiol. Mynegwyd pryder y byddai'r trefniadau braidd yn gymhleth ond cytunwyd i gynnal cyfarfod arbrofol ym mis Mai. Cytunodd yr Ysgrifennydd i wneud ymholiadau ynglŷn ag ystafell i tua 12 a gofyn hefyd am basys parcio a chaniatâd i ddod â'n lluniaeth ein hunain (**pwynt gweithredu**).

6. DERBYN COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL ER GWYBODAETH YN UNIG

Tynnwyd sylw mai 2021 ac nid 2019 a ddylai fod yn y pennawd.

7. CRYNODEB A MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLYNYDDOL GAN Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi synnu i'r trefniadau fynd mor rhwydd. Diolchodd i Rob Evans am anfon llythyrau at y 150 aelod nad oedd cyfeiriad e-bost ar eu cyfer yng nghofnodion y Gymdeithas. Diolchodd i'r Ysgrifennydd am lunio'r agenda, i Jackie am y paratodau technegol ac i'r Is-gadeirydd am ei gymorth ar y noson. Dywedodd Iona ei bod yn falch o weld y Gymdeithas yn cynnal cyfarfod llwyddiannus, er braidd yn wahanol i'r arfer, drwy ddefnyddio dulliau modern. Tynnodd y Trysorydd sylw bod nifer o aelodau'n bresennol nad oeddent erioed wedi mynychu'r Gynhadledd Flynyddol o'r blaen.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio gweld y Gymdeithas yn dilyn awgrym Goronwy Wynne a chynnal gweithgareddau fel rhan o ymdrech y *Botanical Society of Britain and Ireland* i gofnodi planhigion yn eu blodau yn y Flwyddyn Newydd.

Tynnwyd sylw fod trefnu'r Cyfarfod Blynyddol wedi datgelu bod nifer sylweddol o gyfeiriadau e-bost anghywir ym mas data y Gymdeithas. Gofynnwyd i Jackie anfon rhestr o'r cyfeiriadau a achosodd problemau at Rob (**pwynt gweithredu**). Cytunwyd i esbonio yn y Cylchlythyr y dylai aelodau ddiweddarau eu manylion cyswllt os na dderbyniasant e-bost yn eu gwahodd i ymuno â'r Cyfarfod Blynyddol (**pwynt gweithredu**).

8. CYHOEDDI YSGRIFAU'R PARCHEDIG HARRI WILLIAMS

Gofynnodd Dafydd Lewis i'r PG ystyried cyhoeddi ysgrifau'r Parch. Harri Williams yn ffurf llyfr. Dywedodd fod yr ysgrifau i'w gweld ar wefan Llên Natur: <https://www.llennatur.cymru/Content/Upload/Harri-Williams-Ysgrif-adar.pdf>. Esboniodd bod 9 pennod, tua hanner cant o dudalennau, gyda chyflwyniad a gwybodaeth ychwanegol gan Duncan Brown. Awgrymodd y dylai'r llyfr fod o ddiddordeb i adaregwyr ond tynnodd sylw ei bod hefyd yn cynrychioli enghraifft brin o weinidog anghydfurfiol yn cymryd diddordeb mewn pwnc seciwlar, amgylcheddol. Dywedodd y byddai dylunio ac argraffu 250 copi maint A5 yn costio tua £650. Esboniodd y gellid gwerthu'r llyfr am tua £5 yn yr Eisteddfod a drwy siopau lleol. Cytunodd mewn egwyddor i fwrw ymlaen ond nodwyd bod rhaid egluro'r sefyllfa ynglŷn â hawlfraint a gofyn am amcangyfrifon ffurfiol o'r costau.

Dywedodd Dafydd y gellid cyhoeddi detholiad o'r ysgrifau yn *Y Naturiaethwr* dros nifer o rifynnau ond efallai na fyddai darllenwyr yn cynnal diddordeb dros gyfnod estynedig.

9 HYNT A HELYNT PI@ntNet

Adroddodd John Griffith ei bod yn bosibl bellach uwchlwytho llun o blanhigyn i wefan PI@ntNet a gweld yr enw Cymraeg. Dywedodd fod Duncan Brown yn teimlo nad yw'r safle yn cynnig enwau safonol bob tro a byddai'n well petai'n defnyddio dim ond un bas data. Awgrymwyd codi'r mater gyda Hugo Grasse. Cytunwyd i baratoi erthygl ynglŷn â'r cyfleuster a gofyn cymeradwyaeth Hugo Grasse i'w chyhoeddi yn y Cylchlythyr ac wedyn, drwy Rob Evans, ei chynnig i'r papurau bro (**pwynt gweithredu**). Cytunwyd hefyd i roi nodyn ar wefan CELL a cheisio rhoi cyhoedduswyd ar *Galwad Cynnar*.

10. CYNNAL TEITHIAU ADDAS AR GYFER DEFNYDDWYR CADAIR OLWYN

Cynigiodd y Cadeirydd gynnal taith ym mhob ardal yn ystod haf 2022 a fyddai'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a bygis. Dywedodd Alan Williams iddo gynnal digwyddiad tebyg yn y gorffennol a ystyriwyd yn llwyddiant. Awgrymodd Carys Parry y dylid tynnu sylw at unrhyw daith yn ystod y flwyddyn a fyddai'n addas i bobl anabl a dywedodd Gwyn Roberts efallai y byddai ymweliad â Chors Caron yn ystod Eisteddfod Tregaron yn briodol.

Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw iddo gynnal trafodaeth gyda Ffiona Jones o "Byw yn Iach, Gwynedd" cyn y Cyfnod Clo. Awgrymodd y gellid cynnal y fath digwyddiad ochr yn ochr â thaith i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

11. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

i) Is-bwyllgor Llên Natur

Mewn adroddiad a dderbyniwyd drwy e-bost esboniodd Duncan Brown fod myfyriwr wedi tynnu yn ôl o'r dasg o ddadansoddi dyddiaduron Owen Edwards. Dywedodd iddo dderbyn ymateb calonogol oddi wrth yr Athro Sarah Davies o Brifysgol Aberystwyth sydd yn gobeithio cynnwys yr Athro Catrin Charnell White, Dr Hywel Griffiths, Eurig Salisbury ac o bosibl myfyriwr ôl radd.

ii) Y Trysorydd

Cyfeiriodd y Trysorydd at y fantolen a ddisbarthwyd drwy e-bost. Dywedodd fod £50,174.09 mewn llaw ar 15^{fed} Tachwedd 2021. Dangoswyd gwariant o £909.22 ers 19.08.2021. Argraffu "Glas", costau postio a phaneli i'r digwyddiad "Bioflits" yng Nghapel Curig oedd y prif eitemau. Cofnodwyd incwm o £1,255.56 gan gynnwys y taliadau aelodaeth a dderbyniwyd yn hwyr drwy siec a thâl o'r Cyngor Llyfrau am werthu'r llyfr "Ffyngau". Rhestrwyd gwerth tua £9,450 o eitemau y disgwylid eu talu yn y dyfodol agos, gan gynnwys argraffu'r cylchgronau, costau'r Eisteddfod, yswiriant, cynnal gwefannau a chostau'r PG.

Nodwyd bod *Llên Natur* wedi penderfynu cau ei gyfrif banc oherwydd costau cynyddol a disgwylid derbyn swm o tua £720. Diolchodd y Trysorydd i Ifor Williams am ei gymorth i Duncan.

Penderfynwyd peidio ag ail-fuddsoddi'r swm o £10,145.40 ym mond Bank Hodge ar 3^{ydd} Rhagfyr gan obeithio y byddai cyfradd llog Banc Lloegr yn codi yng nghanol mis Rhagfyr.

iii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth

Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth ei fod yn falch o adrodd bod pobl yn dal i ymaelodi. Adroddodd iddo dderbyn ymateb boddhaol i'w ymdrech i hysbysebu teithiau i ddysgwyr drwy'r Coleg Cenedlaethol. Dywedodd ei fod wedi hyrwyddo teithiau hefyd ar fforwm *Say Something in Welsh*.

Awgrymwyd paratoi erthygl i'r papurau bro ynglŷn â'r teithiau botanegol yn y flwyddyn newydd (gweler eitem 7) (**pwynt gweithredu**).

Cytunodd Dafydd Lewis i anfon manylion cyswllt "y Ffynnon" at Rob (**pwynt gweithredu**)

[Gadawodd Alan Williams.]

iv) Trefnyddion Gweithgareddau

Cytunodd y tri Threfnydd fod cael aelodau i gynnig teithiau'n dod yn fwyfwy anodd. Cytunwyd nad oeddent mewn sefyllfa i baratoi rhaglen chwe mis ac felly bod rhaid parhau i gyhoeddi gweithgareddau fesul mis. Tynnodd Hywel Madog sylw bod rhaglen fer yn hwyluso ail-drefnu teithiau a ganslwyd. Trafodwyd cynnal teithiau rhanedig ar y ffin rhwng dwy ardal ond mynegwyd pryder y byddai'r trefniadau'n gymhleth. Gofynnwyd a oedd rhaid cynnig taith bob wythnos a dywedwyd y gallai niferoedd fod yn anodd eu trin petai teithiau yn llai aml. Cytunwyd y byddai'n ddymunol recriwtio aelodau iau, gan gynnwys dysgwyr.

Cadarnhawyd bod rhaid parhau i gasglu enwau a manylion cyswllt cerddwyr.

Cytunwyd y byddai'r tri Threfnydd yn trafod cynnal cyfarfodydd cofnodi planhigion yn blodeuo dros y Calan (**pwynt gweithredu**) Nodwyd nad oedd rhaid eu cynnal ar y Sadwrn.

v) Golygydd y Cylchlythyr

Dywedodd Gwyn Roberts fod absenoldeb y rhaglen gweithgareddau'n gadael bwllch mawr ac apeliodd am fwy o adroddiadau am deithiau gan ychwanegu mai diwedd y flwyddyn fyddai'r dyddiad cau. Esboniodd fod y Cylchlythyr wedi gorfod addasu at yr amgylchiadau mewn ffordd braidd yn *ad hoc* a hoffai dderbyn syniadau oddi wrth y PG ynglŷn â chynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. Cyfrannodd ddau syniad:-

- a. "Tamaid i aros Pryd". Esboniodd y Golygydd iddo dderbyn adroddiad gan Arwel Michael am gefndir taith a fydd yn ei arwain yn y Gwanwyn. Dywedodd yr hoffai, er mwyn cadw cydbwysedd rhanbarthol, dderbyn rhywbeth tebyg o'r Gogledd-orllewin a'r Gogledd-ddwyrain.
- b. "Dwyn mae cof". Awgrymodd gynnwys erthygl reolaidd ar y patrwm "Deng/25 mlynedd i heddiw". Cadarnhaodd yr Is-gadeirydd fod copi ganddo o bob ôl rhifyn o'r Cylchlythyr.

Tynnodd y Trysorydd sylw bod angen hyrwyddo'r gystadleuaeth i ddysgwyr.

Cytunodd John Griffith i anfon manylion "Taith yr Hen Ogledd" a Pl@ntNet at y Golygydd (**pwynt gweithredu**).

vi) Golygydd y Naturiaethwr

Dywedodd y Golygydd ei fod yn gobeithio cyhoeddi ceisiadau yng nghystadleuaeth y Gymdeithas yn yr Eisteddfod. Esboniwyd y byddai ceisiadau a dderbyniwyd yn 2020 yn cael eu beirniadu yn 2022. [Goronwy Wynne yw'r beirniad – JW]. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n cadarnhau trefniadau gyda'r siaradwr gwadd, warden Cors Caron (**pwynt gweithredu**).

Cytunwyd y byddai Dafydd Lewis yn sefydlu'r "drop box" arferol ar gyfer y ddau gylchgrawn. Tynnodd y Golygydd sylw ei fod yn dal i geisio cael copïau pdf o rifynnau cynnar y *Naturiaethwr* er mwyn eu rhoi ar y wefan. Cadarnhawyd y byddai'r rhifyn nesaf yn cynnwys erthygl arall o'r gystadleuaeth i ddysgwyr. Adroddwyd y byddai'r Gymdeithas yn cynnig gwobr o £150 eto yn 2022 a mis Gorffennaf fyddai dyddiad cau.

Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw bod angen atgyfodi'r Pwyllgor Marchnata er mwyn paratoi ar gyfer Eisteddfod 2022 ac yn enwedig prynu offer i'r stondin. Awgrymodd gynnal cyfarfod rhithiol ar wahân i gyfarfod y PG (**pwynt gweithredu**).

Cynigiodd Hywel Madog gynnal yr Is-bwyllgor digidol, efallai mewn pythefnos, i drafod datblygu ein defnydd o gyfrif Google y Gymdeithas (**pwynt gweithredu**).

12. GOHEBIAETH Dim

13. UNRHYW FATER ARALL Dim

14. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2021

17 Chwefror (cyfarfod rhithiol)
19 Mai (i'w gadarnhau)
18 Awst (i'w gadarnhau)
17 Tachwedd (cyfarfod rhithiol)

Dymunodd y Cadeirydd y gorau i bawb gan ddiolch iddynt am fynychu'r cyfarfod.